COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mehefin 10fed, 2015 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Robert M. Jones (Cadeirydd), John Gwilym Jones (Is-gadeirydd), Thelma Cordingley, Wyn Griffiths, John E. Griffiths, Alun Jones, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris, William B. Williams, R. Phillip Roberts

ABSENNOL

Gwilym Hughes, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Fai 13eg a Mehefin 1af, 2015 yn gywir ar ôl cywiro bod Cyng. O. Hefin Roberts yn bresennol yng nghyfarfod Mehefin 1af.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y cais a ganlyn:

C15/0444/39/AC	Rhyddhau Amod 14 ar Ganiatâd CC13/0736/39/LL sy'n ymwneud â'r system rheoli dŵr wyneb – Harbour Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau [Derbyniwyd dyfarniad cyn y cais – gweler isod]**
C15/0452/39/DA	Diwygiad di-faterol i'r cynllun a ganiatawyd gan gais C08D/0475/39/LL er mwyn newid o borth agored i un caeëdig – 6 Maes Gwydryn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau [Derbyniwyd dyfarniad cyn y cais – gweler isod]**

Derbyniwyd ymateb i'r ymholiad pam na dderbyniwyd y ceisiadau a ganiatawyd heb dderbyn copi ohonynt oddi wrth Gwenan Jones, Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu. Eglura nad ymgynghorir ar y ceisiadau sy'n diweddu â'r llythrennau DA (rhai di-faterol/mân newidiadau), AC (rhyddhau amodau) a SC (barn sgrinio) er y cynhwysir hwy ar y rhestr wythnosol.

C15/0468/39/LL **Dyluniad Diwygiedig** i dŷ a ganiatawyd gan ganiatâd llawn C13/1098/39/LL yn ddyluniad diwygiedig blaen a wal ochr – The Anchorage, Penbennar, Aber-soch **– Cefnogir, ond mynegwyd pryder am y wal**

C15/0537/39/LL Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd ac ardal ddecio cysylltiedig – Cwt Rhif 15 Borth Fawr, Aber-soch – **Cefnogir, ar yr amod y cedwir at faint yr un gwreiddiol**

4. MATERION YN CODI

a) Toiledau Cyhoeddus – Tyddyn Callod, Aber-soch

- Nid oes gan Wynedd drefn ad-dalu glanhawyr. Cysylltwyd â Mal Holt, Healthmatic, i holi am fynediad 'di-dâl', a dywedodd bod modd cael swits a goriad. Hysbyswyd y Rheolwr Prosiect o hyn a disgwyliai fwy o wybodaeth amdano.
- Gosodwyd y gisyr dŵr poeth ond, ni dderbyniwyd anfoneb.
- ***Arwydd*** – derbyniwyd dau amcanbris o £90.00 a £110.00; penderfynwyd derbyn y rhataf a gosod yr arwydd uwchben y drysau, os yn bosibl.
- Ni lwyddwyd anfon y ffurflen enwebu am Wobr Toiled y Flwyddyn 2015 eto oherwydd y manion bethau sydd angen eu cwblhau a'r atgyweirio yn dilyn fandaleiddio dau banel allanol ger toiledau'r merched a'r anabl.
- Cysylltwyd eto â'r cwmni nwy i osod mesurydd newydd – disgwylir peirianydd o fewn y mis.

b) Biniau Baw Cŵn

- Ni lwyddwyd cysylltu â'r contractwr i ofyn a brynodd bostyn dal bin ym maes parcio Mynydd Cilan.
- Ni dderbyniwyd ateb i'r ymholiad a osodir bin ychwanegol ger offer sglefrfyrddio Cae Chwarae Aber-soch – cais a gyflwynwyd dros flwyddyn yn ôl; deallwyd y fandaleiddiwyd yr un presennol, ond ni dderbyniwyd ymateb i'r ymholiad pwy sy'n gyfrifol amdano.

c) Swydd a Chytundeb Gwaith y Clerc

Cwblhawyd y trafodaethau â Paul Egan, Un Llais Cymru, a throsglwyddodd y Cyn-gadeirydd yr adroddiad a dderbyniodd oddi wrtho i Griffith, Williams & Co. Cadarnhawyd talu'r ôl-daliad i'r Clerc heno.

ch) Foel Gron a Thir Comin Mynytho – Tir Pen y Mynydd

Derbyniwyd neges oddi wrth Merfyn Pugh yn dilyn sgwrs a gafodd â'r tenant – cytuna dalu cyfanswm o £100.00 y flwyddyn a hoffai gael 'Tenantiaeth Busnes Fferm' am gyfnod o ddeng mlynedd; penderfynwyd cydsynio â'i gais.

d) Gwefan y Cyngor

Derbyniwyd strwythur drafft y wefan, h.y. rhestr adrannau a thudalennau y gellir eu hychwanegu neu ddileu fel y gellir ei hadeiladu'n derfynol. Penderfynwyd derbyn y tudalennau a gynigir.

dd) Cae Chwarae Aber-soch

Cwblheir gosod y ffens a'r giât newydd cyn diwedd yr wythnos. Mynegwyd y buasai cael ffens yr un fath ar ochr y ffordd yn ei dacluso ymhellach.

e) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

f) **Meddygfa Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach. Adroddwyd y bu cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol yn edrych ar adeiladau a awgrymwyd a deellir yr ystyrir dau ymhellach.

ff) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/'Harbour Mews Development'**
Ni dderbyniwyd ymateb i ohebiaeth parthed yr uchod ar y bwriad o greu'r llwybr ar lan Afon Soch na'r enwau Cymraeg a awgrymwyd i'r tai.

g) **Gohebiaeth aii) Un Llais Cymru (ULlC)**
Ni lwyddwyd anfon cwyn eto am y diffyg parch i'r Gymraeg; cynydda'r rhestr – derbyniwyd holiadur am dechnoleg gwybodaeth a gwefannau i'w ddychwelyd cyn Mehefin 19eg ond, eilradd yw'r Gymraeg eto, gan mai mewn cromfachau mae'r cwestiynau a'r atebion Cymraeg.

ng) **Cyfreithwyr Gamlins – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach.

h) **Canllawiau ar Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 – Cyfieithu**
Derbyniwyd ateb oddi wrth Uned Gwynion Ganolog, Llywodraeth Cymru. Ymddiheurir yn ddiffuant yr anfonwyd ymateb uniaith Saesneg i'r gŵyn wreiddiol ym mis Mawrth ond, deil at y ffaith bod rhaid blaenoriaethu'r adnoddau cyfieithu cyfyngedig sydd ar gael. Atodir gyswllt at y Rheoliadau eu hunain – mae'r rheiny ar gael yn y Gymraeg...! Atebwyd i fynegi anfodlonrwydd, ynghyd â hysbysu swyddfa'r Comisiynydd Iaith o'r ymateb.

i) **Gohebiaeth a) Un Llais Cymru (ULlC) –** i) **Ymgynghoriadau ar Eithriadau i Bremiwm Treth y Cyngor ar gyfer Cartrefi Gwag Hirdymor ac Ailgartrefi yng Nghymru**
Ni chyfarfu'r gweithgor y soniodd y Cyng. Wyn Williams amdano ond, ymatebodd Gwynedd eisoes. Penderfynwyd mynegi pryder am nifer yr ailgartrefi'n fusnesion yn y gymuned ac, o ganlyniad, y colla Wynedd allan ar drethi 438 – newidiodd 188 y llynedd – a bod angen datrys y broblem.

l) **Gohebiaeth d) John D. Roberts – Archwilio Cyfrifon 2014 – 2015/Hacker Young**
Anfonwyd y ffurflen gyfrifon, a gadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor ar Fehefin 1af, at Hacker Young.

ll) **Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig – Digwyddiad Codi Arian at Drychineb Daeargryn Nepal ar Borth Fawr**
Derbyniwyd e-bost, er gwybodaeth, y codwyd £121.00 at yr uchod.

m) **Gwasanaeth Cynllunio – Bryn Cethin Bach, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth yr Uwch Swyddog Gorfodaeth.

n) **Cefnogaeth Gorfforol – Her Gwynedd**
Derbyniwyd galwad ffôn yn gofyn a oedd cynrychiolydd o'r Cyngor am fynychu'r cyfarfod i drafod yr uchod yng Nghlwb Rygbi Pwllheli, Bodegroes, nos fory – y Cadeirydd a'r Clerc am fynd. Adroddodd Cyng. Wyn Williams fod toriadau enbyd yn wynebu gwasanaethau i geisio arbed £11-13 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

5. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Parcio ym Mhorth Neigwl – *Llinellau Gwyn Igam Ogam***
Er cysylltu eto, ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Iwan ap Trefor, Peiriannydd Traffig, i'r ymholiad a ellid ychwanegu mwy o linellau gwyn igam ogam.

b) **Rhaglen Waith mis Mehefin**
- Ailwynebu'r B4415 – Rhydgaled i Bont Inkerman.
- Arwisgo troedffyrdd Lôn Pen Cei a Lôn Hawen, Aber-soch.

c) **Ffens ger Isfryn, Mynytho**
Derbyniwyd ymateb oddi wrth Gyfreithiwr y Cyngor. Awgryma cynllun Y Gofrestrfa Tir bod y llwybr yn rhan o erddi'r tai a byddai rhaid cael copïau o'u cynlluniau i weld os ydynt yn dangos y llwybr (£6.00 am bob eiddo – derbyniodd y Clerc ganiatâd y Cadeirydd i'w harchebu). Ychwanegodd efallai nad yw'r perchnogion yn ymwybodol bod y llwybr yn perthyn iddynt ac y byddant yn fodlon cydweithredu â'r Cyngor i drosglwyddo'r llwybr iddo yn ffurfiol yn hytrach na derbyn unrhyw gyfrifoldeb amdano. Noda, hefyd, gan fod y llwybr wrth ochr y ffordd fawr, y byddai'n fwy priodol i Gyngor Gwynedd gymryd cyfrifoldeb am y cyfryw yn hytrach na'r Cyngor Cymuned.

6. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Arwydd Mynyddoedd Eryri ar y Llwybr Arfordir ger Cim***
Derbyniwyd ymateb oddi wrth y swyddog yng Nghyngor Shropshire parthed yr arwydd – annelwig a fawr o help yn y bôn.

b) ***Llwybrau'r Gymuned – Llwybr 69 Bryn Ffynnon, Stad Sant Tudwal, Mynytho***
- Noda ymateb Huw Tudor nad oes gan berchnogion tir eraill hawl tramwyo ar y llwybr. Ychwanegir yr argymhellwyd y byddai'n well i'r perchennog ailagor y llwybr fel nad oes unrhyw rwystr tramwyo – HT sy'n gwerthu'r tŷ.
- Gobeithia Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, ailagor y llwybr erbyn diwedd mis Gorffennaf neu ddechrau mis Awst – dibynnu'n llwyr ar yr adar nythu.

c) ***Taith Gerdded Ddigidol***
Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach gan ddylunydd taith Nefyn na Bleddyn Prys Jones, Rheolwr Gwasanaeth AHNE.

ch) ***Shanty, Penbennar***
Diolchodd am yr wybodaeth parthed perchnogaeth y llwybr.

d) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Derbyniwyd ymholiad a fyddai modd ailagor y llwybr hwn. O gysylltu â Dewi Wyn Owen, derbyniodd yntau yr un ymholiad, ynghyd ag am Lwybr 17 gerllaw a nododd y buasai'n haws iddo ystyried y cais pe bai'r Cyngor yn ymholi; penderfynwyd, yn dilyn trafodaeth, y dylid gofyn iddo ymchwilio i'w hailagor.

7. **ADOLYGU A MABWYSIADU RHEOLAU SEFYDLOG/ARIANNOL A PHOLISÏAU**

Gohiriwyd tan fis Medi.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Ymgynghoriad Amddiffyn Asedau Cymunedol***
Angen sylwadau erbyn Medi 11eg, 2015.
ii) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor – Cyfarfodydd Blynyddol a Chyffredin***
Cynhelir hwy nos Iau, Mehefin 18fed, yn Swyddfeydd Cyngor Tref Caernarfon.

b) **Mrs. Jean Thomas – Tacsis**
Llythyr yn cwyno am y tacsis sy'n ymgynnull o flaen pympiau petrol T. a G. Williams. Cafodd yr Heddlu air â hwy eisoes, ond daliant fod yno.

c) **Llythyr Ymddiswyddiad**
Derbyniwyd ymddiswyddiad Cyng. June Jones. Hysbysir y Swyddog priodol.

ch) **Yr Arolygiaeth Gynllunio – Deddf Gwlad a Thref 1990 – Apêl Elim, Lôn Garmon, Aber-soch**
Llythyr yn nodi penderfyniad yr uchod – fe'i caniateir.

d) **Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Gofal Cymdeithasol a Iechyd yng Ngwynedd**
Enghraifft o gynllun, er gwybodaeth, sy'n edrych ar wasanaethau cymdeithasol a iechyd a'r plethiad rhyngddynt.

dd) **Grŵp Cynefin – Grant Datblygu Cymunedol**
Gwybodaeth am yr uchod – ei bwrpas yw ariannu prosiectau gan grwpiau cymunedol yn yr ardaloedd ble gweithia Grŵp Cynefin.

e) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apeliadau dan Adran 78(i)**
i) Gosod tyrbin gwynt ychwanegol – Crugeran, Sarn Mellteyrn
ii) Cyfnewid siale bresennol am dŷ annedd – Glyndŵr, Lôn Pont Morgan, Aber-soch
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor ar yr ail eisoes.

f) **Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ym Mae Colwyn**
Cynhelir gweithdy hyfforddiant ar Orffennaf 15fed yn Neuadd y Dref Bae Colwyn – y gost fydd £30.00 y pen.

ff) **Cyng. Bill Darwin, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy – Môr Iwerddon 2050**
Cynhelir cynhadledd i drafod yr uchod ym Mharc Eirias, Bae Colwyn, ddydd Gwener, Mehefin 12fed.

g) **Cyng. Wyn Williams – Banc NatWest**
Derbyniwyd gwybodaeth y bydd cangen Aber-soch yn cau ar Fedi 16eg. Cynhelir diwrnod agored ar Fehefin 24ain ac mae'r swyddogion yn fodlon cyfarfod cynrychiolaeth o'r Cyngor – penderfynwyd ysgrifennu i fynegi siomedigaeth ei fod yn hoelen arall i gefn gwlad, yn arbennig o gofio mai'r trethdalwyr yw ei bechnogion. Mynegwyd pryder hefyd am angen holl fusnesau'r pentref a'r ardal sydd angen newid yn ystod y tymor gwyliau.

9. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C15/0158/39/AM	Adeiladu tŷ annedd tair ystafell wely a modurdy – Tir ger Minffordd, Lôn Engan, Llanengan – **Gwrthod**
C15/0217/39/LL	Dymchwel eiddo, modurdy a choeden cedrwydden presennol a chodi tŷ newydd deulawr a modurdy yn ei le – Pentraeth, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0290/39/LL	Estyniad deulawr ochr i'r tŷ ac estyniad porth car i'r modurdy – Hafod, 127 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amod**
C15/0296/39/LL	Adeiladu dau estyniad unllawr, ynghyd â chyfnewid to tin am un llechi, ynghyd â chodi lefel brig y to ac addasu ei godiad – Argraig, Cilan – **Caniatawyd ag amodau**
C15/0342/39/SC	*Screening Opinion* – Ynys Sant Tudwal (Gorllewin) – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C15/0444/39/AC	Rhyddhau Amod 14 ar Ganiatâd CC13/0736/39/LL sy'n ymwneud â'r system rheoli dŵr wyneb – Harbour Hotel, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C15/0452/39/DA	Diwygiad di-faterol i'r cynllun a ganiatawyd gan gais C08D/0475/39/LL er mwyn newid o borth agored i un caeëdig – 6 Maes Gwydryn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**

CEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL

Dim.

10. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu ôl-daliad a chyflog mis Mehefin y Clerc (Rh/S 001914).

Derbyniadau
Arian Mynediad y Toiledau – £241.40

11. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Gorffennaf 22ain, 2015 am saith o'r gloch